

## Militareiddio Cymru

Rydym yn byw mewn byd o newidiadau mawr a bach. Mae rhai newidiadau mor fach fel ein bod ni braidd yn ymwybodol eu bod yn digwydd. Esiampl fechan o hynny yw'r modd y diflannodd ein blychau teleffon coch. Cawsant eu symud o un i un ar draws y wlad. Dim ond ar ôl iddynt ddiflannu bron yn llwyr y sylweddolodd llawer eu bod wedi mynd! Newid distaw bach o'r fath yma yw y modd y mae'n cymdeithas sifil yn cael ei filitareiddio. Fe fu'r cysylltiad rhwng Eglwys Loegr, y Wladwriaeth, y Goron a'r Lluoedd Arfog i gyd yn rhan annatod o wead y Deyrnas Unedig erioed wrth gwrs. Ond mae yna ddirgelwch, ynglŷn â phryd yn union y dechreuodd yr ochr filitaraidd ddod yn llawer fwy agored a chyhoeddus yn ein bywyd beunyddiol ni yng Nghymru.

Ers 2003 gwelwyd cydymdeimlad y cyhoedd gyda'r milwyr oedd yn ymladd rhyfel anghyfreithlon yn Iraq yn tyfu yn raddol. Daeth galwadau i sicrhau gwell offer ac arfau iddynt ar faes y gad. Sefydlwyd y mudiad "Help for Heroes" sy'n casglu arian i gynorthwyo milwyr clwyfedig yn Hydref 2007. Mae heddychwyr yn ymgyrchu dros sicrhau cymorth i filwyr clwyfedig hefyd wrth gwrs. Ond mae "Help for Heroes" wedi bod hefyd yn raddol droi pob milwr yn "arwr". Felly mae hi wedi mynd yn anoddach i neb i feirniadu y lluoedd arfog yma sy'n "arwyr" ac yn "aberthu" eu hunain drosom ni.

Chwaraeodd y teulu Brenhinol Prydeinig eu rhan hefyd drwy anturiaethau milwrol y Tywysog Harry yn Afghanistan a'r Tywysog William yn y Malvinas. Sefydlodd Gordon Brown Ddydd y Lluoedd Arfog yn 2009 er mwyn i "ni ddangos ein parch a'n balchder o'r Lluoedd Arfog". Yn dilyn adolygiad o bolisi y Blaid Lafur ysgrifennodd Stephen Twigg a Jim Murphy, y gweinidogion addysg ac amddiffyn Llafur yn y "Telegraph" fod y lluoedd arfog yn "ganolog i'n cymeriad cenedlaethol, fel y maent i'n diogelwch cenedlaethol. A dylai ethos a gwerthoedd y lluoedd arfog fod yn bwysig nid yn unig ar faes y gad ond ar draws cymdeithas gan gynnwys ysgolion". Diolch byth mae addysg wedi ei ddatganoli i Gymru ac felly nid yw hi yn debyg y bydd y cynlluniau i sefydlu grwpiau o gadlanciau yn ysgolion Lloegr yn digwydd yma. Na'r syniad o gyflogi cyn-filwyr i ddysgu disgyblaeth a moesoldeb i bobl ifanc Lloegr. Rhaid cofio wrth gwrs fod y Fyddin yn ymweld ag ysgolion mewn ardaloedd tlotaf Cymru i recriwtio plant 16 oed. Hefyd mae'r Lluoedd Arfog yn cynnig prentisiaeth i fyfyrwyr mewn Colegau Addysg Bellach Cymru ar yr amod ei bod yn ymuno yn y fyddin dan y teitl "cael eich talu wrth astudio". Tra yn ein Prifysgolion mae yna ymchwil yn digwydd sydd wedi ei ariannu gan y Weinyddiaeth Amddiffyn.

Bu'r cyfryngau wrthi hefyd pan gafodd Côr Gwragedd Milwrol lwyddiant gyda chan "*Wherever you are*" yn rhif un y Nadolig 2011. Yna mae cyflwyniad Gwobrau Milwrol papur y *Sun* yn cael ei dangos ar y teledu bob blwyddyn ers 2009. Bu milwr hefyd yn ymgeisio ar yr *X Factor* ar y teledu fel rhan o'r elusen "Help for Heroes". Cafwyd sawl rhaglen ddogfen ar y teledu hefyd yn dangos y milwyr ar eu gorau yn ymladd yn Afghanistan. Gorfodir staff y BBC sy'n ymddangos o flaen y camera i wisgo'r pabi coch adeg Sul y Cofio. Mae yna gysylltiadau agos hefyd rhwng chwaraeon a'r fyddin yn enwedig pan mae'r fyddin yn cynnig eu cyfleusterau i hyfforddi chwaraewyr. Cynhelir raliau beiciau modur ar dir y fyddin ar Fynydd Epynt. Mae'r fyddin yn ceisio dangos fod Mynydd Epynt yn le cadwraeth natur gan annog pobl i gerdded ar hyd llwybrau natur pan nad oes ymarferion milwrol yn digwydd. Nid oes diwedd ar y ffyrdd y mae'r lluoedd arfog yn ceisio cysylltu ei hunain gyda bywyd beunyddiol "normal".

Bu 2012 yn flwyddyn pan ddaeth yr holl elfennau yma at ei gilydd wrth i ni ddathlu y "Great British Summer". Gwelwyd rwyg arferol y lluoedd arfog yn ystod jiwbil y Frenhines ond roedd digwyddiad yr Olympiad yn mynd a ni llawer ymhellach. Cafodd Llundain ei feddiannu gan y Lluoedd Arfog. Hwn

oedd y trobwynt mawr yn y berthynas rhwng Cymdeithas Sifil Prydain a'r Fyddin. Yn ystod yr Olympiad gwelwyd miloedd o filwyr Prydain am y tro cyntaf yn cael archwilio (*frisking*) y cyhoedd Prydeinig wrth iddynt fynd i mewn i'r arena. Y Gemau Olympaidd oedd yr arbrawf cyntaf i brofi adwaith y cyhoedd i weld milwyr mewn iwniform a oedd yn barod i ymosod arnynt os oedd rhaid yn enw diogelwch. Hwn oedd y tro cyntaf i filwyr Prydain fod yn barod i ymosod ar ddinasyddion Prydeinig yn hytrach na gelynion tramor. Roedd y milwyr yn weladwy iawn mewn modd oedd yn dangos y newid sydd wedi digwydd bellach ym mywyd cyhoeddus Prydain. Mae hon yn rhan o broses o filitareiddio Prydain sydd yn mynd i gynyddu.

Efallai ein bod fel Cymry yn teimlo fod y digwyddiadau yn Llundain yn bell i ffwrdd ac y bu'n bosib i ni osgoi y rhan fwyaf o'r miri yn ystod haf 2012. Ond hefyd yn 2012 cyhoeddwyd adroddiad "Army2020" sydd yn mynd i effeithio ni yng Nghymru hefyd. Fe gafodd "Army2020" sylw'r cyhoedd yn bennaf oherwydd y sôn am leihau'r fyddin. Ond mewn gwirionedd pwrpas cynllun "Army2020" yw ddechrau gwau gwaith milwrol yn bellach i mewn i economi sifil y wlad. Bydd disgwyl i gyflogwyr i ryddhau eu gweithwyr sydd wedi gwirfoddoli i fynd i ryfela. Bydd cyflogwyr yn cael marc ansawdd tebyg i'r "Kite Mark" i osod ar eu nwyddau i ddangos eu cefnogaeth i'r lluoedd arfog. Disgwylir wedyn i weithwyr gyfranogi ei sgiliau i'r fyddin tra y bydd milwyr yn eu tro yn cyfrannu at sgiliau'r gweithlu sifil. Mae'n ddigon anodd ar hyn o bryd i wahaniaethu rhwng gweithgaredd sifil a gwaith milwrol, ond mae'n mynd i fod yn galetach cyn hir. Ni fydd modd i ni osgoi'r lluoedd arfog yn ein bywydau bob dydd yma yng Nghymru.

Mae'r fyddin wedi ceisio creu delwedd Gymreig drwy gael hysbysebion dwyieithog ar S4C a chwifio'r Ddraig Goch ar ben eu tanciau. Enw eu hymgyrch recriwtio diweddar yn y Bala ac ym mharc Margam oedd "Dragon's March". Ond yn y bôn sefydliad Prydeinig iawn yw'r fyddin ac mae milwyr yn dysgu parchu'r holl draddodiad imperialaidd yr Ymerodraeth Brydeinig. Mae militeiddio Cymru felly yn un elfen o'r strategaeth i'n gwneud ni i deimlo'n falch o'n Prydeindod gan ein clymu i mewn i'r drefn Brydeinig.

Nid peth newydd yw gweld bechgyn bach yn chwarae gydag arfau a milwyr tegan, ond mae llawer o blant bellach yn gwisgo dillad cuddliw i fod yn ffasiynol. Mae lluoedd arfog yr Unol Daleithiau wedi datblygu llawer o'r gemau fideo treisgar mae plant a phobl ifanc yn hoffi ei chwarae. Mae enwau rai o'r gemau yma yn dweud y cyfan *Call of Duty*, *black ops.*, *God of War*, *Born to Die*, *Assassins Creed*. Gemau sy'n dysgu plant sut i ladd eraill a bod hynny yn hwyl. Yn y byd ffasiwn ceir dillad mewn steil milwrol i ferched gyda'r *trench coat* a'r *bomber jacket*.

Mae Cymdeithas y Cymod yng Nghymru wedi gosod y nod iddi ei hun i "Ddifilitareiddio Cymru" Gair hyll yw "Difilitareiddio" ond mae'r broses gynyddol yma i wau'r lluoedd arfog i mewn i fywyd ein cymdeithas hefyd yn hyll. Cyhoeddwyd adroddiad dan yr enw "Y Ddraig Khaki" gan Del Harries ar ran Cynefin y Werin peth amser yn ôl oedd yn dangos faint o weithgaredd milwrol sy'n digwydd yng Nghymru. (i'w ddarllen ar wefan [www.cymdeithasycymod.org.uk](http://www.cymdeithasycymod.org.uk)) Mae bron bob ffatri yng Nghymru yn cynhyrchu ryw ddarnau ar gyfer y peiriant milwrol. Nawr yn dilyn "Army 2020" bydd yna bwysau ar gyflogwyr i filitareiddio'r gweithlu hefyd. Tybed a fydd yna ddiwylliant yn tyfu yn y gweithle lle y bydd pobl sydd ddim yn gwirfoddoli i'r lluoedd arfog i'w gweld yn llwfr neu o leiaf ddim yn wlatgar.

Fel un a fu yn gweithio fel Rheolwr Personél mae'n ddiddorol sylwi fod y Llywodraeth wedi dechrau edrych ar newid amodau gwaith milwyr i fod yn debycach i weithwyr cyffredin. Mae'r llysoedd bellach wedi gosod dyletswydd o ofal ar y Fyddin fel cyflogwr i sicrhau iechyd a diogelwch milwyr.

Does dal dim hawl gan filwyr i ymuno ag undeb lafur. Ond mae'n debyg mai'r newid i roi'r hawl i fyw i filwyr yn unol â'r ddeddf hawliau dynol fydd yn arwain at ddefnyddio fwy o arfau robotiaidd mewn rhyfel. Gwelwyd yn barod y cynnydd yn y defnydd o'r "adar angau" y Drôns dros Afghanistan fel canlyniad uniongyrchol i hyn. Mae hynny yn codi'r holl gwestiwn moesol am ddefnyddio peiriannau sydd heb gydwybod ddynol i ladd eraill. Nid "arwyr" yw'r milwyr sydd yn eistedd yn ddiogel mewn canolfan rheoli'r adar angau.

Mae'n bwysig ein bod ni yn deffro i'r newidiadau bychain yma sydd wedi digwydd dros y degawd diwethaf i'n bywydau cyn ei bod hi'n rhy hwyr. Bydd mwy i ddod hefyd o feddwl am y £50miliwn mae'r llywodraeth wedi ei neilltuo i gofio dechrau'r Rhyfel Byd cyntaf yn 2014. Mae angen i ni sicrhau fod canran o'r arian yma yn cael ei wario ar addysg heddwch ac i gofio am y gwrthwynebwyr cydwybodol dewr. Mae angen i ni bwysio fel rhieni ar ein hysgolion lleol i atal y fyddin rhag ymweld â'n plant i'w recriwtio. Dim ond Prydain o fewn gwledydd NATO a'r Undeb Ewropeaidd sy'n recriwtio plant 16 oed i'w byddin. Mae angen i ni wyllo pa gemau fideos mae ein plant yn ei chwarae. Rhaid bod yn effro gan wneud ein gorau i ddatfilitareiddio Cymru.

Arfon Rhys